


# Cwestiynau cyffredin am ein newidiadau i'r Codau Ymarfer Proffesiynol

Here are answers to some of the questions you may have about our changes to the Codes of Professional Practice.

Cyhoeddwyd gyntaf: 24 September 2024

Diweddariad olaf: 16 October 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/cwestiynau-cyffredin-ymgynghoriad-codau am y fersiwn diweddaraf.

Here are answers to some of the questions you may have about our changes to the Codes of Professional Practice.

## 1. Beth yw'r Codau Ymarfer Proffesiynol?

Dangos

Er mwyn sicrhau bod gweithwyr yng Nghymru yn darparu gofal a chymorth da, mae gennym ni Godau Ymarfer Proffesiynol, ac rydyn ni'n cofrestru grwpiau o weithwyr i wneud yn siŵr eu bod yn addas i weithio ym maes gofal cymdeithasol.

Mae'r codau yn set o reolau, neu safonau, y mae'n rhaid i weithwyr gofal proffesiynol weithio yn unol â nhw, i helpu i gadw pobl yn ddiogel ac yn iach.

## 2. Sawl Cod Ymarfer Proffesiynol sydd yna?

Dangos

Mae dau God Ymarfer Proffesiynol, un ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ac un ar gyfer cyflogwyr.

## 3. Beth ydych chi'n ei newid yn y Codau Ymarfer Proffesiynol?

Dangos

Rydyn ni wedi gwneud yr iaith yn symlach ac yn gliriach ac wedi ychwanegu mwy o wybodaeth am bwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Rydyn ni hefyd wedi diweddaru'r codau fel eu bod yn cynnwys gwybodaeth am sut y dylech chi ymddwyn ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â thu allan i'r gwaith yn gyffredinol.

## 4. Pwy ddylai gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn?

Dangos

Mae'r ymgynghoriad hwn ar gyfer unrhyw un sy'n cael ei effeithio gan y codau. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol neu sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Rydyn ni hefyd am glywed gan unrhyw un a fydd yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol yn y dyfodol, gan gynnwys myfyrwyr gwaith cymdeithasol.

## 5. Sut bydd y newidiadau yn effeithio arnaf i, fel gweithiwr gofal cymdeithasol?

Dangos

**Ni fydd y newidiadau rydyn ni'n cynnig yn effeithio ar eich ymarfer, ac nid oes disgwyl i chi weithio mewn ffordd wahanol.**

Rydyn ni wedi newid yr iaith yn y codau i'w gwneud nhw'n fyrrach ac yn gliriach, fel ei bod hi'n haws i chi ddeall beth sy'n ddisgwyliedig gennych chi.

## 6. Sut bydd y newidiadau yn effeithio arnaf i, fel rhywun sy'n derbyn gofal a chymorth?

Dangos

**Nid yw'r newidiadau rydyn ni'n cynnig yn gofyn i weithwyr gofal cymdeithasol weithio mewn ffordd wahanol.**

Rydyn ni wedi newid yr iaith yn y codau i'w gwneud yn fyrrach ac yn gliriach, felly mae'n haws i chi weld beth sy'n ddisgwyliedig gan eich gweithwyr gofal cymdeithasol a'r safonau y mae angen iddyn nhw weithio iddynt.

## 7. A fydd y canllawiau ymarfer yn newid?

Dangos

Bydd, bydd y canllawiau ymarfer yn cael eu diweddaru i gyd-fynd â'r codau unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi'i gwblhau.

## 8. Pryd fydd y Codau Ymarfer Proffesiynol yn newid?

Dangos

Rydyn ni’n cynnal ymgynghoriad rhwng 30 Medi a 17 Rhagfyr i gael clywed barn pobl am ein newidiadau arfaethedig.

Ar ôl i’r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn ni’n edrych ar yr holl adborth rydyn ni wedi’i dderbyn ac yn penderfynu ar fersiwn derfynol y codau.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted ag y byddwn wedi cytuno ar ddyddiad gweithredu ar gyfer y codau newydd.

Byddwn yn rhoi digon o rybudd i chi ac ni fyddwn yn disgwyl i weithwyr gofal cymdeithasol ddechrau gweithio i’r codau newydd ar unwaith.